------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 30 Ebrill 2014**

Amser:
**09.00**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Bethan Davies**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8120
PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

## Agenda

**CYTUNODD Y PWYLLGOR YNG NGHYFARFOD 26 MAWRTH 2014 I GYNNAL EITEMAU 1, 2 A 3 YN BREIFAT**

### 1 Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru): Goblygiadau Ariannol y Bil (09:00-09:15) (Tudalennau 1 - 7)

### 2 Cyllido Addysg Uwch: Trafod yr adroddiad drafft (09:15-09:45)

(Tudalennau 8 - 41)
FIN(4)-07-14(papur 1)

### 3 Swyddfa Archwilio Cymru: Sesiwn friffio ar y trefniadau newydd yn deillio o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (09:45-10:45)

Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru
Kevin Thomas - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Swyddfa Archwilio Cymru
Terry Jones - Rheolwr Technegol, Swyddfa Archwilio Cymru
Nicola Evans - Rheolwr Cyllid, Swyddfa Archwilio Cymru

**(Egwyl 10:45-11:00)**

CYFARFOD CYHOEDDUS

## 4 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (11:00)

## 5 Papurau i'w nodi (11:00) (Tudalennau 42 - 43)

**Bil Cymru: Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru (20 Mawrth 2014)** (Tudalennau 44 - 45)

**Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2013-2014: Llythyr gan y Gweinidog Cyllid (14 Ebrill 2014)** (Tudalennau 46 - 48)

**Ymchwiliad i Cyllid Cymru: Gwybodaeth ychwanegol gan Cyllid Cymru (Ebrill 2014)** (Tudalen 49)

**Ymchwiliad i Cyllid Cymru: Brecwast Rhanddeiliaid Cyllid Cymru** (Tudalennau 50 - 55)

## 6 Ymchwiliad i Cyllid Cymru: Sesiwn dystiolaeth 5 (11:05-12:00)

(Tudalennau 56 - 66)
FIN(4)-07014(papur 2)
Briff ymchwil

Edwina Hart AC - Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Rob Hunter - Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad, Llywodraeth Cymru

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: (12:00)

Eitem 8

## 8 Ymchwiliad i Cyllid Cymru: Trafod y dystiolaeth a gafwyd (12:05-12:30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 2



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

## Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 26 Mawrth 2014** |
| Amser: | **09.30 - 11.32** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_26_03_2014&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Christine Chapman AC**<br>**Paul Davies AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Ann Jones AC**<br>**Julie Morgan AC** |
| Tystion: | **Ian Johnson, Cyllid Cymru**<br>**Sian Lloyd Jones, Cyllid Cymru**<br>**Chris Rowlands, Cyllid Cymru**<br>**Peter Wright, Cyllid Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Meriel Singleton (Ail Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Richard Bettley (Ymchwilydd)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a’r cyhoedd i’r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Ffred Jones. Nid oedd neb yn dirprwyo ar ei ran.

## 2 Papurau i’w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

2.1 Ymchwiliad i Cyllid Cymru: Gwybodaeth ychwanegol gan y Ffederasiwn Busnesau Bach

## 3 Ymchwiliad i Cyllid Cymru: Sesiwn dystiolaeth 4

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Sian Lloyd Jones – Prif Weithredwr, Peter Wright – Cyfarwyddwr Buddsoddi Strategol, Ian Johnson – Cadeirydd Bwrdd Cyllid Cymru ccc, a Chris Rowlands – aelod o Fwrdd Cyllid Cymru a Chadeirydd y Pwyllgor Buddsoddi o ran yr ymchwiliad i Cyllid Cymru.

3.2 Cytunodd Cyllid Cymru i anfon nodyn i roi gwybod beth yw ei symiau o ddyled a ddilëwyd dros y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

4.1 Cytunwyd ar y cynnig, ac fe’i hestynnwyd i’r eitem o fusnes gyntaf ar gyfer y cyfarfod nesaf.

## 5 Ymchwiliad i Cyllid Cymru: Trafod y dystiolaeth a gafwyd

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

## 6 Blaenraglen waith

6.1 Bu’r Pwyllgor yn trafod ei flaenraglen waith.

Wales Office
Swyddfa Cymru

Office of the Secretary of State for Wales
Gwydyr House
London, SW1A 2NP

Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Tŷ Gwydir
Llundain, SW1A 2NP

Email/Ebost: correspondence@walesoffice.gsi.gov.uk
Direct Line/Ffôn: 029 2092 4221

Jocelyn Davies AM
Chair, Finance Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ref: 117SUB 14

20 March 2014

Dear Jocelyn,

I am writing in response to your letter of 3 March.


I am pleased to inform you that I have today introduced the Wales Bill in the House of Commons. I enclose a copy of the Bill, and you will wish to note, in particular, that clause 21 of the Bill provides the Assembly with the power to legislate in relation to its budget procedures.

The Government has given careful consideration to the recommendations made by the Welsh Affairs Committee resulting from its pre-legislative scrutiny of the draft Wales Bill, and has accepted the majority of the Committee's recommendations.

The Chief Secretary to the Treasury and I have also published a Command Paper, *Wales Bill: Financial Empowerment and Accountability,* which sets out in more detail the effects of the Finance elements in Part 2 of the Bill. I enclose a copy of the Command paper with this letter.

I note your Committee's intention to scrutinise the Command Paper alongside the Bill. I have considered carefully your request that I attend Committee to discuss the paper and the Bill, but think that this may be a matter more suited to an HM Treasury Minister given the Committee's remit. I understand you have written separately to Treasury Ministers and that they will be responding shortly.

I look forward to reading the Committee's deliberations and will keep you informed of the Bill's progress during its passage through the House.



**Rt Hon / Y Gwir Anrh David Jones MP / AS**
**Secretary of State for Wales**
**Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid**
**Minister for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: SF/JH/0876/14

Jocelyn Davies AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Ebrill 2014

Annwyl Jocelyn,

**Y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gynnig Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 (Chwefror 20140**

Diolch am eich adroddiad craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14.

Amgaeaf nodyn yn Atodiad A, sy'n ymateb i'r argymhellion penodol a nodir yn adroddiad y Pwyllgor. Yn ôl ein harfer, byddaf hefyd yn rhoi adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar alldro terfynol 2013-14 maes o law.

Yn gywir

Jane

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Minister for Finance

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Atodiad A**

**Argymhelliad 1:** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog ddarparu manylion ysgrifenedig am y trefniadau ar gyfer ad-dalu'r cyllid trafodion ariannol i'r Trysorlys ar ôl iddynt ddod i gytundeb. (Tudalen 13)

**Ymateb:** Cadarnhaodd y Gweinidog Cyllid pan ddaeth hi i'r Pwyllgor Cyllid ar 19 Chwefror y byddai hi'n hapus i roi manylion llawn i'r Pwyllgor am y trefniadau ar gyfer ad-dalu trafodion ariannol, unwaith y cyrhaeddir cytundeb gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi.

**Argymhelliad 2:** Mae'r Pwyllgor yn pryderu ei bod yn costio dros £2 filiwn i Wasanaethau Cyhoeddus Northgate weinyddu'r Gronfa Cymorth Dewisol. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod gwaith pellach yn cael ei wneud i fonitro ac adolygu sut y mae'r gronfa yn cael ei gweinyddu, a yw'r costau gweinyddu yn gymesur a pham mae'r niferoedd cychwynnol ar gyfer y cynllun wedi bod yn isel, o ystyried fod y cynllun yn cymryd lle cynllun a oedd eisoes yn bodoli. (Tudalen 16)

**Ymateb:** Roedd y Gweinidog Cyllid yn falch o gadarnhau wrth y Pwyllgor yn ei llythyr ar 5 Mawrth fod Llywodraeth Cymru, wrth ddyfarnu'r contract ar gyfer gweinyddu Cronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru, sef y cynllun sy'n cymryd lle'r Gronfa Gymdeithasol ddewisol, wedi cyflawni arbedion sylweddol mewn costau ac wedi lleihau'r costau gweinyddol yn y flwyddyn ariannol hon i fymryn dros £1.3m.

O ran y niferoedd sy'n derbyn y taliadau grant, fel y trafodwyd yn y Pwyllgor ac fel y nodwyd yn y llythyr gan y Gweinidog Cyllid, roedd y tanwariant eleni o ganlyniad i'r niferoedd isel a fanteisiodd ar y grant ar y cychwyn. Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn gynllun newydd ac er ei fod yn debyg i'r Gronfa Gymdeithasol ddewisol flaenorol, mae'n gweithredu'n wahanol ac yn rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd partneriaid ledled Cymru, megis asiantaethau cynghori, codi ymwybyddiaeth o'r cynllun a helpu pobl wrth baratoi eu ceisiadau. Fe wnaeth datblygiad cychwynnol y rhwydwaith partneriaid gymryd amser, a effeithiodd ar y galw ond mae bellach dros 400 o bartneriaid i'r Gronfa, ac mae'n parhau i dyfu. Mae'r galw am y Gronfa bellach yn cyrraedd y lefelau a ddisgwylir ac nid ydym yn disgwyl tanwario mewn blynyddoedd i ddod.

Gan fod y Gronfa bellach yn dod i ben ei blwyddyn gyntaf, bydd gwerthusiad annibynnol yn cael ei wneud i edrych ar sut mae'n gweithredu. Bydd y gwerthusiad hwn yn dangos os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau neu welliannau i'r Gronfa.

**Argymhelliad 3:** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi nod y Gweinidog i wella'r cyswllt rhwng dyraniadau a chanlyniadau ac yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn manteisio ar y cyfle i gynnwys gwybodaeth am y mewnbwn o adnoddau yn ogystal ag allbynnau a chanlyniadau yn adroddiad blynyddol nesaf y Rhaglen Lywodraethu. (Tudalen 18)

**Ymateb:** Fel mae'r Pwyllgor wedi cydnabod, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi mwy o wybodaeth ar y cysylltiadau rhwng allbynnau a dyraniadau.

Cadarnhaodd y Gweinidog Cyllid yn y Pwyllgor Cyllid ar 19 Chwefror fod swyddogion yn gwneud gwaith pellach ar archwilio'r cysylltiadau rhwng cyllidebau a chanlyniadau, ac y bydd hyn yn cyfrannu at waith ar gyhoeddi adroddiad blynyddol eleni ar y Rhaglen Lywodraethu. Bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi sylw i hyn wrth baratoi ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2015-16 yn ogystal.

**Argymhelliad 4:** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dyraniad o'r gronfa *Buddsoddi i Arbed* a'r ad-daliadau iddi, ac mae'n fodlon ar hynny. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn ymrwymo i gynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n manylu ar yr arian sy'n cael ei drosglwyddo o'r gronfa *Buddsoddi i Arbed* a'i ad-dalu iddi. Dylai'r adroddiad nodi arbedion gwirioneddol ac arfaethedig prosiectau *Buddsoddi i Arbed.* (Tudalen 22)

**Ymateb:** Fel y nododd y Gweinidog Cyllid yn ei llythyr at y Pwyllgor Cyllid ar 5 Mawrth, mae gwybodaeth gyllidebol am y Gronfa eisoes wedi cael ei chyhoeddi. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys buddsoddiadau mewn prosiectau unigol a'r manteision sy'n gysylltiedig â hwy, ynghyd â manylion cyllidebol sy'n dangos tarddiad y cyllid, gan gynnwys ad-daliadau. Pan gyhoeddir Cyfrifon Llywodraeth Gyfan 2013-14 yr haf hwn, bydd gwybodaeth gyfatebol ar wariant hefyd yn dod ar gael.

Mae Adroddiad Blynyddol *Buddsoddi i Arbed* y Gweinidog ar hyn o bryd yn cynnwys manylion am fuddsoddiadau mewn prosiectau a'u harbedion rhagamcanol cysylltiedig, gyda manylion o arbedion gwirioneddol a gyflawnwyd yn cael eu dangos mewn astudiaethau achos o brosiectau. Bydd manylion o arbedion a gyflawnir gan y prosiectau a gwblhawyd ac a gefnogwyd gan *Buddsoddi i Arbed* ar gael yn hwyrach eleni, pan gaiff canfyddiadau'r gwerthusiad diweddaraf o'r gronfa eu cyhoeddi.

Bydd y Gweinidog Cyllid yn ystyried y posibilrwydd o gynnwys gwybodaeth ariannol bellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Buddsoddi i Arbed*, y bwriedir ei gyhoeddi yn yr hydref.

**Finance Committee – Inquiry into Finance Wales**

**Additional information from Finance Wales**

Following a request by the Committee, Finance Wales have supplied a summary of the loan amounts written off by Finance Wales in each of the past three financial years across the funds under management that are actively investing. To put the figures in context, Finance Wales also included details of the total amounts of loan provisions, and the total amount of loan investments made by Finance Wales over the same period.

By way of explanation, when FW considers the repayment of a loan to be in doubt a provision for bad debt is raised against the loan in question. The write off of debt follows some time thereafter, once any action that FW may take to recover the outstanding loan amount have been concluded. Accordingly, write offs in a particular year typically relate to loans made in previous years.

Increasing trends can be seen across the three year period in respect of loans advanced, provisions and write offs. This reflects increased FW investment activity due to additional funds under management. Moreover, as funds mature, we would expect to see a greater proportion of loan recipients showing signs of distress and hence a corresponding increase firstly in provisions and then write offs against such loans.

**FINANCE WALES - Loan write-off Data for the 3 Financial Years ended 31st March 2014**

| | FINANCIAL YEAR ENDED 31st MARCH | | |
|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 |
| Loan Balances Written Off in Year (£000) | 26 | 573 | 2,056 |
| Loan Provisions in Year (£000) | 1,001 | 1,301 | 2,298 |
| Total Loan Investment in Year (£000) | 9,776 | 10,962 | 12,792 |

04.04.14

# Pwyllgor Cyllid – Ymchwiliad i Cyllid Cymru
# Brecwast Rhanddeiliaid Cyllid Cymru

## 22 Ionawr 2014
## Pierhead, Bae Caerdydd

### Cefndir

**01.** Fel rhan o'i ymchwiliad i Cyllid Cymru, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid frecwast gyda busnesau bach a chanolig ar 22 Ionawr 2014 i drafod eu profiadau â Cyllid Cymru. Mae rhestr lawn o'r rhai oedd yn bresennol yn Atodiad A.

**02.** Roedd pedwar grŵp trafod yn y sesiwn. Dosbarthwyd meysydd arfaethedig ar gyfer trafodaeth, sydd i'w gweld yn Atodiad B.

### Y Prif Faterion

**03.** Roedd llawer o gefnogaeth ar gyfer Cyllid Cymru yn y sesiwn, a dywedodd llawer eu bod yn anghytuno â chanfyddiadau'r adolygiad Mynediad at Gyllid. Dywedodd y busnesau bach a chanolig wrth yr Aelodau eu bod yn gwerthfawrogi dulliau Cyllid Cymru o weithio, fel bod yn hyblyg o ran trefniadau ariannu a'r sefydlogrwydd y mae'n cynnig o gymharu â banciau'r stryd fawr. Awgrymwyd bod Cyllid Cymru yn ased ac y gallai fod wedi cael mwy o gymorth, a bod yr awydd i gael gwared â Cyllid Cymru yn enghraifft arall o Gymru yn creu niwed diangen iddi'i hyn.

**04.** Roedd mwyafrif y pryderon a fynegodd y busnesau bach a chanolig i aelodau'r Pwyllgor yn ymwneud â gofal cwsmeriaid a chyfathrebu. Roedd awgrym y gallai Cyllid Cymru fod yn fwy rhagweithiol o ran hyrwyddo ei hun i fusnesau bach a chanolig, gan fod llawer o atgyfeiriadau yn digwydd drwy gyfryngwyr, fel cyfrifwyr.

**05.** Cododd y busnesau bach a chanolig nifer o gwestiynau ynglŷn ag arloesedd Cyllid Cymru a sut mae'n canfod syniad newydd/da ac a oes digon o wybodaeth arbenigol o fewn y sefydliad.

**06.** Dyma'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn y trafodaethau, mae rhagor o fanylion isod:

– Mae angen Cyllid Cymru

– Mae angen diffinio cylch gwaith Cyllid Cymru

– Cyfraddau Llog Cyllid Cymru

– Cyfathrebu a Marchnata

– Cyllid ar gyfer gwahanol fathau o fusnesau

– Hyd y broses

– Mae angen adolygu cymorth ehangach Llywodraeth Cymru i fusnesau

## Mae angen Cyllid Cymru

Yn gyffredinol, roedd cynrychiolwyr y busnesau bach a chanolig o'r farn bod angen Cyllid Cymru. Roeddent o'r farn na fyddai llawer o fusnesau wedi dod i fodolaeth, neu heb gael eu lleoli yng Nghymru, heb Cyllid Cymru. Roedd Cyllid Cymru yn barod i fenthyg pan oedd y risg yn annerbyniol i'r benthycwyr mawr. Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod Cyllid Cymru wedi benthyg i fusnesau; ac am nad oes ecwiti preifat yng Nghymru roedd Cyllid Cymru wedi helpu i bontio'r bwlch hwnnw. Nid oeddent yn ystyried fod Cyllid Cymru yn cymryd lle buddsoddiadau preifat, ond yn hytrach ei fod yn cyd-fynd â hwy. Roeddent hefyd o'r farn bod Cyllid Cymru yn barod i wrando ac yn hyblyg ac yn gallu llenwi bwlch oherwydd yr ystod eang o gynnyrch mae'n cynnig.

## Cylch Gwaith Cyllid Cymru

Dywedwyd wrth Aelodau bod angen egluro cylch gwaith a phwrpas Cyllid Cymru. Roedd cynrychiolwyr y busnesau bach a chanolig o'r farn bod angen egluro a yw Cyllid Cymru yn lled-ddarparwr grantiau, yn asiantaeth datblygu economaidd neu yn fenthycwr annibynnol/endid masnachol. Roedd rhai cynrychiolwyr o'r farn mai ei brif swyddogaeth oedd buddsoddi, ac roedd eraill o'r farn bod Cyllid Cymru yn mynd drwy brosesau cyfalaf menter er mwyn gwneud penderfyniadau. Roedd y busnesau bach a chanolig o'r farn nad oedd yn eglur a yw Cyllid Cymru yn canolbwyntio ar ariannu cychwyn busnesau, hwyluso twf neu ddatblygu swyddi. Awgrymodd rhai o'r busnesau bach a chanolig y dylai Cyllid Cymru ddarparu cronfeydd cyllid sbarduno, yn enwedig oherwydd y prisiau tir a'r costau cychwynnol isel yng Nghymru. Cafodd nifer o bryderon eu mynegi ynghylch yr anhawster bod Cyllid Cymru yn strwythur corfforaethol o fewn cylch gorchwyl gwleidyddol a bod angen penderfynu a ddylai fod yn sefydliad sy'n cydbwyso risg a diogelwch cyn buddsoddi mewn busnes, neu yn ddim ond cangen o adran datblygu busnes Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn bryder i fusnesau bach a chanolig achos, os yw Cyllid Cymru am fod yn llwyddiant, mae arno angen pobl sy'n gyfarwydd â byd busnes/masnach. Yn ôl y cyfranogwyr: *'you can't do finance on the process'*.

## Cyfraddau Llog Cyllid Cymru

Bu llawer o drafod ynghylch a yw cyfraddau llog Cyllid Cymru yn rhy uchel, sef 10% ar gyfartaledd. Y consensws cyffredinol oedd nad oedd y cyfraddau yn afresymol o ystyried lefel y risg sy'n gysylltiedig, am fod y rhan fwyaf o'r benthyciadau heb eu gwarantu. Awgrymwyd bod y feirniadaeth o'r cyfraddau llog yn ddiangen yn enwedig am nad oedd y banciau'n benthyca i fusnesau fel y cyfryw. Nodwyd er bod gan fenthyciadau masnachol cyfradd ganrannol flynyddol yn is, ar ôl ychwanegu pethau eraill fel yswiriant bywyd, roedd yn codi i lefel gymharol â chyfradd ganrannol flynyddol Cyllid Cymru. Hefyd, y gwahaniaeth rhwng cyfradd ganrannol flynyddol o 5% a chyfradd ganrannol flynyddol o 10% yw tua £100 y mis. Nid yw hynny'n ddigon i wneud busnes yn anhyfyw. Awgrymwyd

fod camsyniad bod cyfraddau uchel yn cael eu cynnig, ac amlygwyd nad yw'r lefelau'n ddim byd tebyg i gyfraddau WONGA neu gwmnïau o'r fath, neu hyd yn oed cwmnïau ecwiti preifat yn Llundain. Os byddai'r cyfraddau yn rhy uchel ni fyddai Cyllid Cymru yn cael unrhyw fusnes. Roeddent wedi synnu bod Cyllid Cymru yn cael ei feirniadu am ymdrechu i fod yn hunangynhaliol. Roedd cwestiwn ynghylch a fyddai pobl am i Lywodraeth Cymru ddarparu cymhorthdal ar gyfer cyfraddau llog drwy gost i'r trethdalwr.

### Cyfathrebu a Marchnata

Un o'r prif bryderon ynghylch Cyllid Cymru oedd bod angen iddo gyfathrebu a marchnata ei wasanaethau yn well. Dywedodd rhai cyfranogwyr wrthym, cyn iddynt weithio â Cyllid Cymru, nad oedd ganddynt fawr ddim ymwybyddiaeth ynghylch beth roedd Cyllid Cymru yn ei wneud, na sut roeddent yn rhan o'r mecanwaith cyllido, er roedd eraill yn teimlo bod Cyllid Cymru yn weladwy yn y gymuned fusnes. Clywodd yr Aelodau am yr anawsterau o ran cyfathrebu â phob busnes bach a'r berthynas gadarnhaol rhwng Cyllid Cymru a chwmnïau cyfrifyddiaeth, sy'n tueddu i weithredu fel broceriaid mewn trefniadau ariannu. Awgrymwyd bod llawer o fusnes Cyllid Cymru yn dod drwy atgyfeiriadau. Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn beirniadu'r deunydd marchnata, gan awgrymu nad oedd yn gyfredol a'i fod yn aneglur o ran y meysydd y mae Cyllid Cymru yn eu cefnogi. Roedd y busnesau bach a chanolig yn pwysleisio bod angen i fusnesau sy'n cychwyn allu canfod yn hawdd beth sydd ar gael iddynt, a bod cael eu cyfeirio at y sefydliadau perthnasol yn wirioneddol bwysig.

### Cyllid ar gyfer gwahanol fathau o fusnesau

Mynegodd rai cyfranogwyr bryderon ynghylch y meysydd sy'n cael eu hariannu gan Cyllid Cymru, ac awgrymu bod angen eu hadolygu. Mynegwyd pryder nad yw Cyllid Cymru yn ddigon hyblyg i ddelio â modelau busnes modern. Mynegodd busnesau bach a chanolig bryderon ynghylch diffiniad Cyllid Cymru o fanwerthu, ac na'i fod wedi'i adolygu i ystyried datblygiadau e-fasnach. Roedd cyfranogwyr o'r farn nad oedd Cyllid Cymru yn agored am yr hyn y mae'n fodlon buddsoddi ynddo, naill ai yn y manylion sy'n cael eu darparu neu mewn trafodaethau cynllunio. Gan symud ymlaen, awgrymwyd y dylai Cyllid Cymru ddechrau darparu cyllid sbarduno ar gyfer busnesau technoleg bach.

### Hyd y broses

Roedd rhai pryderon ynglŷn â'r broses o gael benthyciad gan Cyllid Cymru. Dywedodd busnesau bach a chanolig wrthym fod y broses yn gallu bod yn rhwystr ac y dylai Cyllid Cymru ystyried cynnig rhywfaint o gymorth gyda'r broses o ymgeisio. Roedd Cyllid Cymru wedi cymryd mwy o amser i wneud penderfyniad na buddsoddwyr eraill, fel rhai mewn ecwiti preifat, ar gyfer cytundebau hybrid. Nid oedd hynny'n broblem i bawb, gyda rhai'n cydnabod bod angen proses diwydrwydd dyladwy ar gyfer dyrannu arian cyhoeddus. Awgrymwyd y gellid ystyried dulliau arloesol megis ceisiadau wedi'u recordio ar fideo, fel sy'n digwydd mewn cynllun sy'n cael ei redeg gan y Bwrdd Strategaeth Technoleg a

Llywodraeth y DU, a allai leihau'r amser sy'n cael ei dreulio yn llenwi ffurflenni. Dywedwyd y byddai'n ddefnyddiol cael syniad cynnar ynghylch a fyddai hawl gennych i fenthyca, er mwyn osgoi cynhyrchu gwybodaeth fanwl cyn cael eich gwrthod. Roeddent o'r farn bod defnyddio cwmnïau cyfrifyddu yn aml yn helpu gyda'r broses am eu bod yn gallu rhoi cyngor ar y wybodaeth a ddarparwyd.

### Mae angen adolygu cymorth ehangach Llywodraeth Cymru i fusnesau

Roedd consensws cyffredinol bod angen adolygiad ehangach o'r cymorth i fusnesau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Roeddent o'r farn bod angen dull strategol ar gyfer rhoi cymorth i fusnesau, ac nid swyddogaeth Cyllid Cymru oedd hynny.

## Atodiad A

– Simon Buckley- Evan Evans Brewery

– Neil Cocker- Cardiff Start/Dizzyjam

– Warren Oscar Fauvel- Nudjed

– David Anthony- Chevler

– James Roberts- Grant Thornton LLP

– Anthony Bird- The Komodo Group

– Malcolm Duncan- Superod

– Dr Chris Tackaberry – Clinithink Ltd

– Clarissa Chambers

– Lindsay Hogg- Watts Gregory LLP

– David Jones- ICT Sector Panel

– Barry Pappin- Vita

– Dr Meirion Morgan- Meirion Morgan Limited

– Peter McGuiness- Chromogenics

– Gareth Kempson- Biomonde

## Atodiad B

**Themâu i'w trafod**

- Sut mae'r galw am gyllid gan fusnesau bach a chanolig wedi newid ers y wasgfa gredyd yn 2008?
- Beth fu eich profiad gyda Cyllid Cymru?
- Pa mor dda mae'r cymorth ariannol a'r cyngor sydd ar gael gan Cyllid Cymru yn cymharu â darparwyr eraill (ee banciau)?
- Pa gymorth hoffech chi ei gael gan Cyllid Cymru a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol?
- Pa mor dda y mae Cyllid Cymru yn mynd ati i hyrwyddo ei hun a'i opsiynau ariannu?

# Eitem 6

**Y Pwyllgor Cyllid**

**FIN(4)-07-14(p2): 30 Ebrill 2014**

**Tystiolaeth Ysgrifenedig Lywodraeth Cymru: Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid – Cyllid Cymru**

**Strwythur Cyllid Cymru**

I. Is-gwmni hyd braich yw Cyllid Cymru, sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru. Mae llawer wedi'i ddirprwyo iddo o ran y penderfyniadau y caiff eu gwneud o ddydd i ddydd. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cael dylanwadu ar benderfyniadau buddsoddi unigol y Cwmni. Mae hyn yn bwysig gan fod gan Cyllid Cymru fuddsoddwyr sector preifat ac ni fyddent am i'w harian ddod o dan ddylanwad gwleidyddol.

II. Ceidw Llywodraeth Cymru ei hawliau fel sylwebydd yng nghyfarfodydd Bwrdd Cyllid Cymru a chyfarfodydd ei Bwyllgor Archwilio ac mae Cyfarwyddwr Cyffredinol Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gorfod cymeradwyo cynllun busnes blynyddol Cyllid Cymru. Mae'r Gweinidog yn cwrdd yn rheolaidd â Chadeirydd Cyllid Cymru.

III. Fel cwmni cyhoeddus cyfyngedig, rhaid i Cyllid Cymru gydymffurfio â fframwaith llywodraethu corfforaethol llym. Mae'n cael ei archwilio'n fewnol ac yn allanol ac mae'r Bwrdd wedi sefydlu nifer o is-bwyllgorau gan gynnwys pwyllgor archwilio, pwyllgor cyflogau, pwyllgor enwebiadau a phwyllgor risg.

**Cronfeydd y mae Cyllid Cymru yn eu cynnal**

I. Dyma'r cronfeydd byw sy'n cael eu rheoli gan Cyllid Cymru: Cronfa JEREMIE (£150m), Cronfa Buddsoddi BBaChau Cymru (£40m), Y Gronfa Gwyddorau Bywyd (£50m), Y Gronfa Eiddo (£10m), Cronfa Fenthyciadau i Ficrofusnesau (£6m), a'r Gronfa Twf Cyfalaf newydd i Gymru (£20m). Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyfalaf a chymorth ar ffurf cymorth grant iddo. Crewyd y cronfeydd hyn gan ddefnyddio cyfuniad o arian o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru a'r Sector Preifat. Mae Cyllid Cymru yn rheoli hefyd £170m cynllun Cymorth i Brynu Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

**Adolygiad o'r Mynediad at Gyllid**

I. Ers dechrau'r argyfwng ariannol, bu llawer o drafod ymhlith darparwyr cyllid, BBaChau a Llywodraethau ynghylch yr arian sydd ar gael i fusnesau. O gofio bod yr amodau economaidd anodd yn parhau a bod rownd nesaf y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar fin dechrau, barnwyd bod yr amser yn briodol i adolygu strategaeth y Llywodraeth Cymru ynghylch mynediad at gyllid, gan gynnwys rôl Cyllid Cymru.

II. Gyda hyn yn gefndir, penodais yr Athro Dylan Jones Evans i ystyried pa mor effeithlon y mae’r ffynonellau ariannu presennol yn gwasanaethu busnesau bach a chanolig Cymru ac i gynnig argymhellion gweithredu.

III. Cafwyd nifer o argymhellion gan yr Athro Jones Evans, gan gynnwys creu Banc Datblygu i Gymru. Mae hwn yn gynnig o bwys a bodd gofyn ei ystyried yn ddwys ac yn drylwyr. Rwyf wedi comisiynu’r Athro i gynnal astudiaeth o ddichonolrwydd y syniad.

IV. Rwyf hefyd wedi comisiynu Robert Lloyd Griffiths i edrych a oes modd alinio cymorth ariannol ac anariannol Llywodraeth Cymru a Cyllid Cymru er mwyn cynnig help mwy cydgysylltiedig i BBaChau yng Nghymru.

V. Croesawaf her ychwanegol y Pwyllgor Cyllid gan edrych ymlaen at glywed eu barn i’m helpu i ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

VI. Wrth ddisgwyl canlyniad yr ymchwiliad, rwyf wedi gofyn i’m swyddogion adolygu cylch gwaith Cyllid Cymru i wneud yn siŵr ei fod yn gyson â’m blaenoriaethau ar gyfer swyddi a thwf cynaliadwy.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon